

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL DIWYGIEDIG

### BIL ADDYSG UWCH AC YMCHWIL

Mae'r Memorandwm hwn yn diwygio'r Memorandwm a gyflwynwyd ar 17 Tachwedd. Yn unol â Rheol Sefydlog 29.3(v), mae'r memorandwm diwygiedig hwn yn nodi sut a pham mae'r Memorandwm newydd yn wahanol i'r un blaenorol. Mae paragraff ychwanegol (15A) wedi'i gynnwys yn y Memorandwm i egluro pwerau Gweinidogion Cymru i gychwyn darpariaethau penodol yn Rhan 2 o'r Bil, y mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad i wneud hynny. Diwygiwyd paragraffau 8 a 9 o'r Memorandwm i gywiro camgymeriad technegol ac i egluro'r ffaith bod cymal 79 o'r Bil yn diwygio adran 22 o Ddeddf Dysgu ac Addysg Uwch 1998, tra bod cymal 80 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 23 o'r Ddeddf.

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Mai 2016 a chwblhaodd y cyfnod Pwyllgor ar 18 Hydref. Ceir copi o'r Bil yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2016-17/highereducationandresearch.html>

#### Amcanion polisi

3. Amcanion polisi Llywodraeth y DU yw cynyddu'r gystadleuaeth a'r dewis yn y sector addysg uwch (AU) yn Lloegr, codi safonau a chryfhau galluedd y Deyrnas Unedig ran ymchwil ac arloesi.

#### Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan yr Adran Addysg. Mae'n darparu ar gyfer:
  - sefydlu corff cyllido rheoleiddiol ac addysgol newydd ar gyfer y sector AU yn Lloegr - y Swyddfa Myfyrwyr (OfS);
  - gweithredu cofrestr gan yr OfS o ddarparwyr AU yn Lloegr a chynllun graddio ansawdd a safonau (y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu ("TEF"));
  - galluogi OfS i roi pwerau dyfarnu graddau a chaniatáu teitl prifysgol i ddarparwyr AU yn Lloegr (lle mae darparwyr yn gwneud cais am bwerau dyfarnu graddau neu deitl prifysgol);
  - galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ofyn am ddata cais i dderbyn gan sefydliadau sy'n cynnig gwasanaeth derbyniadau canolog a rennir i ddarparwyr AU yn Lloegr at ddibenion ymchwil;

- gwneud trefniadau ar gyfer taliadau cyllid myfyrwyr amgen yng Nghymru a Lloegr;
- dadreoleiddio corfforaethau addysg uwch yn Lloegr; a
- sefydlu corff ymchwil ac arloesi newydd, sef Ymchwil ac Arloesi'r Deyrnas Unedig (UKRI).

### **Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

5. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau canlynol a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil adeg ei gyflwyno, a/neu sydd wedi'u hychwanegu at y Bil drwy welliant yn ystod y cyfnod Pwyllgor. Mae fersiwn ddiweddaraf y Bil [Bil 78 2016-17 fel y'i diwygiwyd yn y pwyllgor Biliau Cyhoeddus] ar gael yn y ddolen uchod. Er hwylustod a chysondeb, mae pob cyfeiriad at rifau cymal yn cyfeirio at y fersiwn honno o'r Bil, p'un a gawsant eu cynnwys yn y Bil pan gafodd ei gyflwyno neu drwy welliant, ar wahân i baragraff newydd 15A sy'n cyfeirio at y fersiwn newydd o'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi.

### **Rhan 1 – Y Swyddfa Myfyrwyr (OfS)**

(A) Graddio ansawdd addysg uwch a'r safonau a gymhwysir

6. Mae Cymal 25 o'r bil yn rhoi pŵer i'r OfS wneud trefniadau ar gyfer cynllun i raddio darparwyr AU yn Lloegr o ran ansawdd yr addysg a ddarperir ganddynt a'r safonau a gymhwysir (y TEF). O dan y cymal hwn, ac os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi'r cydsyniad priodol, bydd yr OfS yn gallu asesu ceisiadau TEF gan ddarparwyr AU yng Nghymru hefyd.
7. Bydd hyn yn galluogi darparwyr AU yng Nghymru i fod yn rhan o'r TEF, os ydynt yn dymuno hynny, a phan fo Gweinidogion Cymru wedi rhoi eu cydsyniad yn gyntaf. Mae'r Bil hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi'r cydsyniad hwnnw'n gyffredinol neu i ddarparwyr AU penodol yng Nghymru a hefyd ddirymu'r cydsyniad.

### **Rhan 2 - Mesurau addysgol eraill**

(B) Cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr

8. Mae Cymal 79 o'r Bil yn diwygio adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("Deddf 1998") sy'n sail i bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau'n ymwneud â chymorth i fyfyrwyr ac ad-dalu benthyciadau myfyrwyr. Mae Cymal 79 yn darparu ar gyfer math ychwanegol o gyllid myfyrwyr ad-daladwy lle nad oes angen talu llog. Mae'r Bil yn addasu'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer Cymru a Lloegr fel bod y rheoliadau'n gallu darparu math amgen o gyllid myfyrwyr ochr yn ochr â benthyciadau a grantiau eraill. Caiff manylion llawn y math amgen o gyllid a gynigir eu hamlinellu yn y rheoliadau a fydd yn cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

9. Mae Cymal 80 yn gwneud diwygiadau pellach, canlyniadol, i adran 23 o Ddeddf 1998 ac i Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005.
10. Mae Cymalau 79 ac 81 (mae Cymal 81 hefyd yn diwygio adran 22 o Ddeddf 1998) hefyd yn darparu bod rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran honno yn gallu gwneud darpariaeth ar gyfer canslo hawl i daliadau cymorth myfyrwyr sy'n cael ei hatal o dan y rheoliadau. Bydd Gweinidogion Cymru'n gallu gwneud rheoliadau mewn perthynas â Chymru sy'n darparu ar gyfer canslo unrhyw hawl i daliad, pan fo taliad grant, benthyciad neu daliad amgen wedi'i atal, a hynny yn y cyfryw amgylchiadau a ragnodir yn y rheoliadau neu odanynt. Felly, pan fydd taliadau cymorth i fyfyrwyr yn cael eu hymchwilio a'u hatal, bydd y rheoliadau'n gallu darparu ar gyfer yr amgylchiadau lle gellir cadw taliadau sydd wedi'u hatal yn ôl yn barhaol.
11. Mae Cymal 81 hefyd yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu uchafswm y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yn Lloegr ar sail graddau TEF a fydd, yn achos Lloegr, yn pennu'r ffioedd dysgu y gall y darparwr AU perthnasol eu codi. Amlinellir y ddarpariaeth ar gyfer terfynau ffioedd yn Lloegr yn Atodlen 2 y Bil.
12. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, wrth wneud rheoliadau ar gymorth i fyfyrwyr AU yn Lloegr, yn gallu rhagnodi uchafswm y cymorth naill ai ar wyneb y rheoliadau neu drwy gyfeirio at faterion a bennwyd neu a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu bersonau eraill (gan gynnwys yr OfS). Bydd yr hyblygrwydd hwn yn, er enghraifft, caniatáu i rheoliadau ar gymorth myfyrwyr yn Lloegr gyfeirio at faterion megis y rhestr o derfynau ffioedd sy'n gymwys i ddarparwyr yn Lloegr ac a gyhoeddir gan yr OfS, fel y'u pennir o dan y Bil ac yn sgil yr asesiadau TEF a gynhelir mewn perthynas â'r darparwyr AU hynny yn Lloegr. Bydd Cymal 81 hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi uchafswm y benthyciad, grant neu daliad amgen a gynigir i fyfyrwyr o Gymru sy'n dilyn cyrsiau gyda darparwyr yn Lloegr drwy gyfeirio at faterion a gyhoeddir y tu allan i'r rheoliadau, er enghraifft rhestr graddau'r TEF a gynhyrchir gan yr OfS mewn perthynas â darparwyr AU yn Lloegr o dan gymal 11 y Bil.
13. Yn ogystal, bydd cymal 81 yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol (mewn perthynas â Lloegr) a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru) o dan adran 22 o Ddeddf 1998 i ddynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion cymorth myfyrwyr yn y weinyddiaeth berthnasol drwy gyfeirio at faterion a bennir neu a gyhoeddir gan yr OfS neu bersonau eraill.
14. Effaith hyn fydd galluogi Gweinidogion Cymru (pe byddai angen) i wneud y rheoliadau ar gymorth i fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru mewn ffordd sy'n dynodi cyrsiau addysg uwch a ddarperir yn Lloegr drwy gyfeirio at faterion a bennir neu a gyhoeddir gan yr OfS. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, y gallu i ddynodi/dad-ddynodi cyrsiau at dibenion cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr Cymru os yw darparwr yn Lloegr

yn cael ei gynnwys neu ei ddileu o gategoriâu penodol ar y gofrestr o ddarparwyr a baratoir gan yr OfS.

15. Mae rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998 mewn perthynas â Chymru yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol ar hyn o bryd. Byddant yn parhau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn hon pan fydd yr adran honno'n cael ei diwygio gan gymalau 79 ac 81 o'r Bil.

15A. Mae rhifau'r cymalau yn y paragraff newydd hwn yn cyfeirio at y Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi [TA Bil 76]. Mae cymal 118 yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru gychwyn darpariaethau penodol mewn perthynas â chymalau 80 - 82 drwy reoliadau fel a ganlyn:

- Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cychwyn cymal 80 i'r graddau bod y cymal:
  - yn diwygio adrannau 22(1); 22(2)(b); 22(2)(g) a 22(2)(i) o Ddeddf 1998 mewn perthynas â Chymru; ac
  - yn cynnwys y darpariaethau newydd a ganlyn yn adran 22 o Ddeddf 1998 mewn perthynas â Chymru, yn benodol adrannau 22(4A); 22(4B)(a) i 22(4B)(d) a 22(4B)(i); a 22(11).
- Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cychwyn cymal 81(2) i'r graddau bod y cymal hwnnw'n diwygio adrannau 23(7)(a)(i) o Ddeddf 1998 mewn perthynas â Chymru; a
- Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cychwyn cymal 82 i'r graddau bod y cymal hwnnw'n cynnwys adrannau newydd 22(2)(aa); 22(2)(fa); a 22(3)(da) yn Neddf 1998 mewn perthynas â Chymru.

Nid oes gweithdrefn gan y Cynulliad sy'n berthnasol i'r pwerau uchod sydd gan Weinidogion Cymru i gychwyn rheoliadau.

### **Rhan 3 - Ymchwil**

(C) Diwygiadau i bwerau i gefnogi ymchwil

16. Mae Cymal 103 yn diwygio adran 5 o Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965 ac adran 10 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 fel bod pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth ar gyfer ymchwil yn glir. Mae'r diwygiadau'n darparu bod pwerau i roi cymorth ariannol o dan yr adrannau hynny yn cynnwys pŵer i ddyfarnu grantiau, benthyciadau neu daliadau eraill yn unol â'r cyfryw delerau ac amodau a ystyrir yn briodol.

### **Crynodeb**

17. Mae angen cydsyniad ar gyfer yr holl ddarpariaethau a restrir uchod am eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r

graddau y maent yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant o dan baragraff 5 o Ran 1, Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### **Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil**

(A) Graddio ansawdd yr addysg uwch a'r safonau a gymhwysir

18. Bydd darparwyr AU yng Nghymru yn gallu bod yn rhan o'r TEF os ydynt yn dymuno hynny, cyn belled â bod Gweinidogion Cymru'n rhoi'r cydsyniad angenrheidiol. Bydd hyn yn sicrhau na fydd darparwyr AU Cymru dan anfantais o'i gymharu â darparwyr yng ngweddill y DU. (Bydd Gweinidogion yr Alban a'r Adran berthnasol yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn gallu rhoi cydsyniad i ganiatáu i'r OfS ystyried ceisiadau TEF gan ddarparwyr yn eu gweinyddiaethau).

(B) Cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr

19. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru yn talu eu ffioedd dysgu a'u costau cynhaliaeth drwy hawlio grantiau a benthyciadau ffioedd dysgu a chynhaliaeth, yn amodol ar eu cymhwysedd personol. Ad-delir benthyciadau gan raddedigion pan fyddant yn ennill mwy na'r trothwy a bennwyd. Ers 2012, mae cyfradd llog gadarnhaol ar gyfer y benthyciadau hyn. Ni all rhai myfyrwyr ddefnyddio benthyciadau â llog am resymau crefyddol, yn enwedig rhai myfyrwyr Mwslimaidd, a gall hyn rwystro rhai darpar fyfyrwyr rhag cyfranogi mewn addysg uwch.

20. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd darparu system ad-dalu amgen yn cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n manteisio ar gymorth ac yn gwella ei dealltwriaeth o ymddygiad myfyrwyr. Mae cynigion deddfwriaethol Llywodraeth y DU yn cyd-fynd â nod polisi Llywodraeth Cymru o sicrhau cyfle cyfartal o ran mynediad at gymorth statudol i fyfyrwyr er mwyn annog cyfranogiad mewn addysg uwch. Bydd y diwygiadau i bwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gymorth i fyfyrwyr addysg uwch ar gyfer Cymru o fudd i fyfyrwyr yng Nghymru, ac yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ymateb i bryderon a godir gan unigolion ynghylch cydymffurfiaeth y system bresennol ar gyfer ad-dalu benthyciadau â dysgeidiaeth eu ffydd grefyddol ar benthyciadau â llog.

21. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol (mewn perthynas â Lloegr) a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru) yn gallu canslo unrhyw hawl i daliadau cymorth myfyrwyr sydd wedi'u hatal, ac felly atal darparwyr neu fyfyrwyr rhag hawlio'r taliadau hyn mewn sefyllfaoedd pan fo amheuan o dwyll neu gamliwio, er enghraifft, wedi'u cadarnhau. Byddai'r taliadau dan sylw yn cynnwys cyllid myfyrwyr amgen, benthyciadau ffioedd dysgu a grantiau a benthyciadau cynhaliaeth.

22. Bydd cyflwyno'r system reoleiddio newydd yn Lloegr, gan gynnwys gweithredu'r TEF, yn cael effaith ar drefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr pa un a yw darparwyr o Gymru'n rhan o'r

trefniadau TEF ai peidio. Hynny am fod myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru ("myfyrwyr Cymru") ac sy'n dilyn cyrsiau gyda darparwyr yn Lloegr, bellach yn gorfod talu'r ffioedd dysgu a godir gan y darparwyr hynny a fydd yn gysylltiedig â chanlyniadau'r TEF ac sy'n perthyn i categorïau gwahanol ar gofrestr darparwyr OfS.

23. Ar hyn o bryd, mae rheoliadau cymorth myfyrwyr AU Llywodraeth Cymru (mewn perthynas â myfyrwyr o Gymru) yn darparu ar gyfer dynodi'n awtomatig gyrsiau AU darparwyr yn Lloegr a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr ("HEFCE"). O dan y Bil, ni fydd HEFCE yn bodoli mwyach a pholisi Llywodraeth y DU yw y bydd cyrsiau AU a ddarperir gan ddarparwyr yn Lloegr yn cael eu dynodi ar gyfer cymorth myfyrwyr i fyfyrwyr o Loegr os yw'r darparwr mewn categorïau penodol yng nghofrestr OfS.
24. Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eto ar ei dull gweithredu mewn perthynas â myfyrwyr o Gymru a fydd yn dilyn cyrsiau yn Lloegr yn y dyfodol, byddai ceisio pwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru er mwyn eu galluogi i wneud rheoliadau blynyddol ar gymorth i fyfyrwyr AU drwy gyfeirio at faterion a bennir neu a gyhoeddir gan yr OfS, yn fanteisiol am y rhesymau isod:
- mae oddeutu 40% o fyfyrwyr o Gymru yn dewis astudio gyda darparwyr yn Lloegr;
  - yn sgil natur hydraid y ffin rhwng Cymru a Lloegr, mae'n bwysig bod system cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru yn gallu adlewyrchu ac ymateb i newidiadau i'r drefn reoleiddio yn Lloegr;
  - mae'r pwerau a fydd yn cael eu rhoi gan y Bil yn bwerau galluogi a gellir eu defnyddio i symleiddio'r dull gweithredu ar gyfer paratoi'r prif reoliadau ar gymorth myfyrwyr ar gyfer Cymru pan na fydd HEFCE yn bodoli mwyach;
  - pe bai darpariaethau'n cael eu cynnwys yn y Bil ar gyfer Lloegr yn unig sy'n caniatáu i reoliadau Lywodraeth y DU gyfeirio at benderfyniadau neu gyhoeddiadau OfS, byddai hynny'n codi amheuon ynghylch gallu Gweinidogion Cymru i wneud hyn yng Nghymru.

#### (C) Diwygiadau i bwerau i gefnogi ymchwil

25. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod eglurder ynghylch pwerau Gweinidogion Cymru i ariannu ymchwil yn fuddiol. Os nad yw'r eglurhad o'r darpariaethau hyn yn berthnasol hefyd i bwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, mae perygl y bydd Gweinidogion Cymru dan fantais o gymharu â'r Ysgrifennydd Gwladol o ran ariannu ymchwil.

#### **Y goblygiadau ariannol**

26. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cydsynio i'r darpariaethau fod yn berthnasol i Gymru.

### **Casgliad**

27. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan mai'r Bil yw'r cyfrwng mwyaf amserol, effeithlon a chydlynol o gyflawni'r pwerau angenrheidiol ar gyfer y dibenion a nodir uchod.

28. Gallai oedi yn lle ceisio darpariaeth ar yr un pryd â gweddill y DU olygu bod darparwyr yng Nghymru a myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau gyda darparwyr yng Nghymru o dan anfantais.

**Kirsty Williams AC**  
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**  
**Rhagfyr 2016**